Dafydd Morgan, 1814–83
Gweinidog (MC) a diwygiwr

Diwygiad 1859–60 oedd un o'r diwygiadau mwyaf grymus a welwyd yng Nghymru erioed a dywedid bod cymaint â 100,000 o bobl wedi eu dychwelyd i'r ffydd Gristnogol. Dylanwadodd y diwygiad hwn mewn ffordd allweddol ar ddatblygiad, twf a chyfeiriad Ymneilltuaeth yng Nghymru, a dyma oedd un o'r prif resymau am yr adeiladu gorffwyll fu ar gapeli yng nghanol y 19eg ganrif. Hefyd trwy'r diwygiad hwn cefnwyd ar hen drefn bwyllog yr Ymneilltuwyr o dderbyn aelodau eglwysig wrth i "dynnu'r rhwyd" ar derfyn oedfaon ddod yn beth cyffredin.

Cysylltir dau ddyn yn bennaf â'r diwygiad hwn, sef Humphrey Jones a David Morgan. Ganed David Morgan ym Melin Fodcoll, rhwng Cwmystwyth a Phontarfynach. Ef oedd y trydydd o naw plentyn y melinydd a'r saer Dafydd a'i briod Catherine. Symudodd y teulu gan ailgartrefu ym Melin y Lefel, Ysbyty Ystwyth, lle y bu Morgan yn byw hyd ei briodas. Bwriodd ei brentisiaeth gyda'i dad gan ddysgu crefft saer, ac roedd y teulu'n aelodau ffyddlon o eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Ysbyty Ystwyth. Ychydig iawn o addysg a gafodd, a hynny mewn ysgol a gedwid yn y pentref gan John Edwards, Hendrefelen. Pan oedd yn ddwy ar hugain oed daeth i brofiad ysbrydol o dan bregethiad y Parch. Evan Evans, Nant-y-glo, ac o hynny ymlaen ymrôdd i weithio yn egnïol yn yr eglwys.

Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym 1842 a thestun ei bregeth gyntaf oedd, "Canys daeth dydd mawr ei ddicter Ef, a phwy a ddichon sefyll?" o lyfr y Datguddiad. Ordeiniwyd ef, ynghyd â saith o ddynion eraill, yng Nghymdeithasfa Tre-fin ar 20 Mai 1847. Y flwyddyn ganlynol daeth i gysylltiad â Humphrey Jones, 'Y Diwygiwr' a oedd newydd ddychwelyd o Unol Daleithiau'r America yn llawn gwres diwygiadol. Aeth Dafydd Morgan i wrando ar Humphrey Jones yn pregethu ym Mhont-rhyd-y-groes ar destun o Lyfr y Datguddiad, sef "Am nad ydwyt yn oer na brwd..." a daeth o dan argyhoeddiad y dylai yntau gynnal cyfarfodydd diwygiadol.

Wedi'r oedfa aeth i gael gair gyda Humphrey Jones a chydsyniodd y ddau i gydymdrechu. Un noson yn fuan wedi'r cyfarfyddiad hwnnw deffrodd Dafydd Morgan am bedwar o'r gloch y bore gan wybod bod rhywbeth anarferol wedi digwydd iddo a bod yr Ysbryd Glân wedi ei fendithio. Dywedodd, "Deffroais tua 4.00 o'r gloch yn cofio pob peth crefyddol a ddysgais ac a glywais erioed. Popeth a ddywedid wrthyf mi a'i cofiwn." Cydweithiodd y ddau am gyfnod gan gynnal cyfarfodydd diwygiadol, ac ymledodd Diwygiad '59 trwy Gymru gyfan.

Yn ystod y misoedd dilynol daeth pobl wrth eu degau i gredu yn Iesu Grist o dan arweiniad y ddau. Gwaetha'r modd yn torrodd iechyd Humphrey Jones ystod y diwygiad a bu rhaid i Dafydd Morgan barhau ar ei ben ei hun. Yn ystod 1859–60 teithiodd trwy bob rhan o Gymru yn cynnal cyfarfodydd di-rif, ac ambell ddiwrnod byddai'n cynnal cymaint â thri chyfarfod cyhoeddus. Y mae hanesion lu o'r cyfarfodydd hyn wedi eu cofnodi gan ei fab, J.J. Morgan, mewn cyfrol eithriadol ddifyr, *Dafydd Morgan a Diwygiad '59*. Ymadawodd y nerthoedd anghyffredin a brofodd David Morgan, a chyffesodd un tro "mai un o deimladau mwyaf ofnadwy ei fywyd oedd gweld y tyrfaoedd yn parhau i'w ddilyn a'r pwerau argyhoeddiadol ac achubol wedi cilio o'i weinidogaeth." Wrth i wres y diwygiad bylu ailgydiodd yn ei ddyletswyddau fel gweinidog yn Ysbyty Ystwyth, a bu'n weinidog hefyd ar eglwys Swyddffynnon.

Ym 1865 priododd â Jane, merch y Parch. Evan Evans, Aberffrwd, gan ymgartrefu yn Glynbetws lle y cawsant saith o blant. Bu farw 27 Hydref 1883 a chladdwyd ei weddillion yn Ysbyty Ystwyth.